| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025** |
| | Cystadleuaeth 89 – Grŵp Cerdd Dant 19-25 oed |
| | **Ceidwad y Goleudy, Emyr Huws Jones** |

Wrth gwrs fe gei di gerdded ar hyd fy llwybr,
cei fynd i ble y mynni ar fy nhir;
wrth gwrs fe gei di gasglu fy mlodau hardda'
dim ond i ti addo deud y gwir.

Wrth gwrs fe gei di gerdded i mewn i 'mwthyn,
cei gynnau fflamau'r tân a hwylio'r te;
wrth gwrs fe gei di groeso ar fy aelwyd
dim ond i ti 'sbonio be di be.

Wrth gwrs fe gei di weddi wrth fy allor,
rhoddaf glustiau fy Nuw yn eiddo i ti;
wrth gwrs cei fedyddio dy blant yn nŵr fy ffynnon
dim ond iti ddysgu 'ngharu i.

Dyma gân a achubwyd o donnau y moroedd,
fe'i gwelwyd yno'n boddi
gan geidwad y goleudy,
fe'i clywodd yn gweiddi
a wnei di f'achub i?
cân a oedd yn llithro
rhwng muriau llaith anghofio,
ceidwad y goleudy ydwyf i.